

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn cofio yn ein gweddiâu heddiw am Emlyn Davies (Tanyfron) ac Annie Griffiths (Llansannan), y ddau yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd wrth i mi ysgrifennu hwn, ac Olwen Cottle (Henllan) sydd wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Deallwn hefyd fod Huw Lloyd (Llanfair) wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu gwarchod a'u cynnal wrth iddynt gryfhau dros y dyddiau nesaf yma.
- Llongyfarchiadau i Iwan a Menna Jones (Groes) ar enedigaeth mab bach, Gruffydd Elystan. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Cefnogi Elusennau

- Diolch o galon i'r ieuentid (a'r ychydig o rai hŷn!) a fu'n effro drwy'r nos er mwyn codi arian tuag at Apêl Argyfwng Bwyd Gorllewin Affrica. Mae'r cyfanswm hyd yn hyn yn £270.00. Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu, byddem yn ddiolchgar o'i dderbyn cyn diwedd Gorffennaf, os gwelwch yn dda.
- Hefyd, gwnaed casgliad yn ystod yr Oedfa i-Grist a'r Oedfa o Fawl ar y Sul arbennig i'r Fro ddiwedd Mehefin a bydd £201.25 yn cael ei gyfrannu i gynorthwyo Banc Bwyd Lleol. Diolch i bawb am eich haelioni.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

- Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd nos Iau, Gorffennaf 26ain am 7.30.
- **Oedfa o Fawl a Barbeciw** i ddilyn nos Sul, Gorffennaf 29ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Cwrs Ieuentid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg – 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatau, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Gorffennaf 2012

Beth am ddod i gerdded hefo ni yn ardal y Groes nos Fercher? Fydd 'na ddim medal aur (!), ond bydd paned a chroeso i bawb. Manylion trosodd.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Dydd da, a chroeso mawr i bawb ohonoch i'r gwasanaethau ym Mro Aled heddiw. Diolchwn i'r Arglwydd am gyfle arall i'w geisio gyda'n gilydd a'i addoli, a gweddiwn y cawn ein hadeiladu a'n herio trwy waith ei Ysbryd yn ystod y dydd a thrwy'r wythnos sydd i ddod.

Tybed faint ohonoch sydd yn bwriadu dilyn y Gemau Olympaidd pan fyddant yn cychwyn yn ystod y pythefnos nesaf? Rhai ohonom am wneud taith i Gaerdydd neu Lundain i fod yn rhan o'r dyrfa o bosib? Hyd yn oed os nad oes gennych ddi-ddordeb ynddynt, maent yn siŵr o fod yn llenwi'r penawdau newyddion trwy gydol yr haf! Mae'n syfrdanol cymaint o fathau gwahanol o chwaraeon a welir yno, ond fod amcanion yr holl gystadleuwyr mor debyg i'w gilydd. Maent yn trafaelio i Lundain o bob cornel o'r byd oll er mwyn cystadlu, gyda'r gobaith y byddant yn llwyddo i ennill eu camp hwy a chael derbyn y fedal aur enwog honno. Mae pob peth y maent wedi bod yn ymarfer ac yn gweithio er ei fwyn wedi ei wneud yn y gobaith o gael ennill. Ond ar y diwedd, wedi'r holl baratoi a'r cynnwrf sydd yn ystod y Gemau, mae rhywun yn cael y teimlad fod mwyafrif y cystadleuwyr yn cael eu siomi'n fawr. Os edrychwn ar y niferoedd, mae'n amlwg mai cyfran fach iawn o'r rhai fydd yn ceisio am wobwr sydd yn cael yr hyn y maent wedi gobeithio amdani.

Beth amdanom ni? Wrth edrych ar addewidion Duw i'w blant, cawn weld nad ydym yn gobeithio'n ofer. Oherwydd bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu, mae addewidion Duw ar gael i bawb ohonom sy'n ymddiried ein bywydau i Grist. Felly, yn wahanol i'r athletwyr hynny sy'n aml yn siomi, oherwydd pwy yw gwrthrych ein ffydd ni ("*awdur a pherffeithydd ffydd*" -*Hebreaid 12:2*), nid gweithio ar ein liwt ein hunain a gobeithio am y gorau yr ydym ni i'w wneud, ond rhoi ein bywydau i glosio at Iesu gan dderbyn ei ras a byw ein bywydau mewn diolchgarwch iddo. Wrth edrych ar yr athletwyr yn chwysu dros yr haf felly, cofiwch eiriau Salm 130:7 "*O Israel, gobeithia yn yr Arglwydd, oherwydd gyda'r Arglwydd y mae ffyddlondeb, a chydag ef y mae gwaredigaeth helaeth.*"

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod DAWN** - y sesiwn olaf cyn yr haf yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol yn Festri Capel y Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Cymdeithasol** – Taith gerdded hamddenol. Cychwyn ger y capel yn y Groes am 6.30 a gorffen am baned yn y Festri. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gydag Elen Elias yn arwain. Cawn gyfle yng nghwmni Aneurin a Rhodri i edrych yn ôl dros y gyfres ddiwethaf, a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 pryd y bydd Rhydian a Glesni yn cyflwyno Mali Elis ac Edi Glynne i gael eu bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau